



## Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ganolfan Addysg Y Bont

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Canolfan Addysg Y Bont yn gymuned hapus, gynnes a chroesawgar lle mae disgyblion yn gwneud datblygiad sylweddol yn eu medrau personol a chymdeithasol dros amser. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lles yn nodwedd gref iawn o waith yr ysgol ac mae hyn wedi arwain at lefel dda o bresenoldeb, agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu ac ymddygiad ardderchog disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu buddiol a phwrpasol ac mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf dros amser yn eu medrau llythrennedd, rhifedd, cymdeithasol, creadigol a chorfforol. Un o brif gryfderau'r ysgol yw'r cysondeb yn y ffordd y mae staff yn datblygu medrau cyfathrebu disgyblion. Mae arweinwyr wedi buddsoddi llawer iawn o adnoddau ac amser i sicrhau bod staff yn gymwys ac abl i sicrhau cyfathrebu clir ac effeithiol gyda'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin medrau cyfathrebu llwyddiannus yn unol â'u gallu neu anhawster. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mae'r staff yn gosod cryn bwyslais ar ddatblygu medrau byw'n annibynnol. Trefnir ymweliadau cyson i'r siopau lleol lle mae'r disgyblion yn mwynhau prynu bwydydd a nwyddau ar gyfer eu gwersi coginio a gwersi eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ac yn elwa'n fawr o weithgareddau yng nghaffi'r ysgol, sef 'Caffi'r Ddraig'.

Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff yn arddel diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r medrau angenrheidiol i ddiwallu anghenion arbenigol pob disgybl. Mae'r ffofws cadarn ar ddatblygiad proffesiynol staff wedi arwain at gryn gysondeb mewn arferion addysgu cryf, strategaethau i hyrwyddo ymddygiad da a pherthnasoedd gwaith cadarnhaol.

# Argymhellion

- A1 Cryfhau'r gweithdrefnau hunanwerthuso drwy fesur effaith y gweithredoedd ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu
- A2 Ehangu'r profiadau dysgu ymhellach drwy wneud defnydd pwrpasol o'r adnoddau allanol ac arbenigol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag effaith datblygiad proffesiynol ar ansawdd y ddarpariaeth.

# Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Canolfan Addysg Y Bont
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Ynys Môn
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Arbennig
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	125
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	96
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Arbennig a Gynhelir yw 46.2%)	45.5%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Arbennig a Gynhelir yw 99.8%)	100.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	Medi 2011
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	07/10/2014
Dyddiad dechrau'r arolygiad	09/05/2023

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.